

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWYD YN YSGOL
GYNRADD RHEWL AR NOS FAWRTH 9FED O FEDI 2014 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Siân Davies (Cadeirydd), Gwyn Howatson, Deryl Roberts, Ian Hession, Mike Denman, Brynle Lloyd, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Clwyd Thomas, Dewi Roberts a Medwyn Jones.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 17eg o Orffennaf 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Grŵp Cynefin wedi cychwyn y gwaith o ddymchwel yr adeilad ar dir yr Eglwys yn Rhewl ac mae'r gloch yn ddwylo'r Cyngor Cymuned erbyn hyn. Mae'r Grŵp Cynefin wrthi'n cael bras gynlluniau wedi eu paratoi ar gyfer ymgynghori pellach efo'r Gymuned ac mi fyddent yn cysylltu efo ni yn y man.

B. Mae'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry wedi trefnu cyfarfod safle gyda Mr Trefor Carr o'r Adran Briffyrdd y Sir ynglŷn â phroblemau'r ffyrdd a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £10,743.00.

B. Derbyniwyd ail ran o'r Precept 2014/15 - £2,632.00.

C. Taliadau:-

1. Cwmni Cennin am gynhyrchu'r Wefan "Llanynys.Org." - £506.21.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2014 - £300.00.

3. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2014 - £75.00.

4. Hacker Young – Archwiliwr Allanol am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2014 - £210.00.

D. Penderfynwyd yr aelodau i beidio mynychu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2014 Un Llais Cymru ar Sadwrn 4ydd Hydref 2014.

E. Penderfynwyd rhoi rhodd o £200.00 at Glwb Garddio Rhewl ar ôl derbyn gwybodaeth bod y mudiad wedi agor cyfrif banc newydd.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Derbyniwyd gwybodaeth bod Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Dymchwel preswyl presennol ac ail adeiladu preswyl newydd yn Nhŷ Celyn (Byrdir), Rhewl.

2. Estyniad i 4 Bro Clwyd, Rhewl.

B. Mae Mr Dewi Wilkinson yn gwneud ymholiadau gydag Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych a oes eisiau cais cynllunio am adeilad amaethyddol ym Mhant Glas Canol, Bontuchel.

6. GWAITH GWELLA PRIFFYRDD 2015/16 CYNGOR SIR DDINBYCH.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau ar y ffyrdd blaenoriaethau canlynol am waith gwella priffyrdd yn y gymuned yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16:-

- A. Cyffordd Bwthyn Bachymbyd tuag at Fontuchel.
- B. Cyffordd Cilan yn Rhewl tuag at Blas Einws.
- C. Fferm (Llanfwrog) tuag at gyffordd ffordd Bontuchel.

7. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y Cyngor Sir yn edrych i mewn a Chynllunio'r Gyllideb a Rhagdybiaethau ar gyfer y dyfodol y Sir a bydd yn adroddi yn ôl yn ystod tymor yr Hydref.
- B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc gysylltu â'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

- A. Ffens diogelwch y Sir dal heb ei pheintio wrth Plas-yr-Esgob yn Rhewl.
- B. Mae yna nifer ac arwyddion dros dro hen ei gasglu ar ol gwaith dros dro yn y gymuned.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos awrth 11eg o Dachwedd 2014 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.